

## Tyfu Cymru: Dalen Cyngor Technegol Mafon a Ffrwythau Cansen Ebrill 2020

### Sylwadau Cyffredinol

Mae llawer o dyfwyr eisoes wedi symud neu'n ystyried symud oddi wrth gynhyrchu mafon mewn pridd i ddefnyddio mathau cansenni hir a dyfir mewn potiau swbstrad. Drwy ddefnyddio'r planhigion hyn a fu mewn storfa oer gellir amserlennu, pan gaiff nifer eu plannu yn yr awyr agored neu dan bolythen, gynhyrchiant y ffrwythau gan ddefnyddio mathau o fafon sy'n dwyn ffrwyth mewn un haf neu mewn nifer o hafau (*floricane*) dros gyfnod cynaeafu llawer hwy na fyddai'n bosibl fel arfer. Os gellir defnyddio tai gwydr neu dwneli polythen i warchod rhai o'r planhigion dilynol, gellid bod yn bosibl cael y planhigion i ddwyn ffrwyth o ganol i ddiwedd Mai hyd at ddiwedd Medi i ganol Hydref. Mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd tyfwyr ond eisiau cynhyrchu ffrwythau'n hwyrach nag sy'n bosibl o'u cynydu presennol o fafon ffrwythau haf a dyfir mewn pridd neu mewn swbstrad, neu efallai, oherwydd lleoliad y fferm, ni fydd cansenni cyntaf planhigion sefydledig cyltifarau megis Octavia, Glen Ample, Dee a Glen Carron, dros y rhan fwyaf o aeafau, mwyach yn cael eu hoeri'n ddigonol yn ystod y gaeaf erbyn diwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn er mwyn i'r hyn sydd yn awr yn gansenni blodeuo egino yn wastad i lawr hyd y cansenni, ac mae hyn, mewn rhai achosion, yn arwain at fod llai na 25% o'r canghennau ochrol posibl yn dwyn ffrwyth.

Pan ddefnyddir mathau cansen hir mewn potiau neu mewn pridd i gynhyrchu ffrwythau, cânt eu rhoi mewn storfa oer ym mis Tachwedd a Rhagfyr pan mae'r cansenni cyntaf wedi gorffen tyfu, a phan fo'r dyddiau byrrach a'r tymheredd oerach yn golygu bod y blodau'n dechrau egino, gan ddechrau ar y brig ac, yna ym mhob nod, fwy neu lai ar hyd y cansenni. Caiff y planhigion eu cadw mewn storfa oer (nes bydd gofynion oeri'r cyltifarau unigol wedi eu cyflawni) ac yn unol â'r gofynion plannu er mwyn sicrhau bod y cynaeafu o bob swp o blanhigion a gaiff eu plannu yn dechrau 70-100 diwrnod ar ôl plannu. Bydd union ddyddiad dechrau'r gwaith cynaeafu unwaith eto yn dibynnu ar y math o blanhigyn, faint o gyfnod oeri mae'r planhigion wedi'i gael, y tymheredd cyn eu rhoi mewn storfa oer a hyd y dyddiau, ac a yw'r dydd yn ymestyn ynteu'n byrhau. Felly planhigion sy'n cael eu plannu ddiwedd Chwefror-Mawrth a Gorffennaf yn dwyn ffrwyth yn hwyrach na'r rheini a gaiff eu plannu ym mis Mai.

Mae'n well defnyddio mafon cansenni hir sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf â dulliau cynhyrchu mewn potiau swbstrad yn hytrach na mewn pridd gan nad yw oes planhigion o'r math hwn o ddeunydd plannu fel arfer ond yn un flwyddyn neu ar y mwyaf ddwy flynedd. Mae'r rhan fwyaf o gyltifarau ond yn cynhyrchu cansenni cyntaf gwan neu brin iawn yn ystod yr ail flwyddyn gynaeafu. Os mai unwaith fydd y planhigion yn cael eu cynaeafu yna gellid defnyddio potyn 7.5L, neu os cânt eu cynaeafu am 2-3 blynedd yna caiff potiau 10 neu 12L eu defnyddio. Mae rhai tyfwyr yn defnyddio 2 blanhigyn mewn potyn 10 neu 12L i gynhyrchu cynydu dwy flynedd.

Yn fwy diweddar, mae rhai lluosogwyr planhigion cansenni hir wedi symud i gynhyrchu planhigyn cansen hir sengl mewn potyn 5 neu 7.5L, ni chaiff y planhigion hyn eu potio eilwaith. Ar ôl i'r compost o amgylch gwreiddiau'r planhigion a fu mewn storfa oer ddadmer yn llwyr, caiff y planhigion cansenni hir eu gosod yn eu lleoliad dwyn ffrwyth, caiff y cansenni eu clymu wrth y dellt cynnal â chortyn neu glipiau plastig, gosodir yr offer diferu dŵr ar neu yng nghompost pob potyn ac mae'r planhigion yn dechrau tyfu.

Nid yw'r planhigion hyn ond yn addas i gynhyrchu un cnwd, ac ar ôl eu cynaeafu, caiff y system ddyfrhau ei datgysylltu a gadewir y planhigion i wywo a marw. Ar ôl iddynt farw cânt eu rhyddhau o'r

dellt a gosodir eu potiau yn y rhesi a chânt eu malu'n dipiau i'w hailgylchu. Mae'r rhaglen rheoli plâu a chlefydau ar gyfer y planhigion un cnwd hyn, a'r gost o reoli'r planhigion, yn llawer is. Gellir cael gwared ar yr hyrddiad cyntaf o dwf y cansenni cyntaf, yr ail hyrddiad ac weithiau'r trydydd drwy chwistrellu carfentrazone ethyl (Shark EAMU 0622/19) yn uniongyrchol, a dylid aros cyn gwasgaru'r plaladdwr nes bo'r **cansenni cyntaf talaf sy'n bresennol o amgylch y cansenni blodeuo yn y potiau yn ddim mwy nac 20cm o uchder**. Nid oes angen chwistrellwyr i reoli clwy cansenni na gwybed cansenni mafon. Sylwer fodd bynnag fod Shark angen bwlch o 21 diwrnod rhwng cynaeafu, y gyfradd wasgaru uchaf unigol yw 800mls cynnyrch/ha trin, ond os caiff ei wasgaru ar yr adeg iawn, dim ond 400 neu ar y mwyaf 500mls/ha fydd yn ofynnol. Mae'n gyflymach ac yn haws cynaeafu'r ffrwythau (yn enwedig i gwsmeriaid 'casglu eich hunain') gan nad oes dim cansenni cyntaf yn bresennol i guddio'r ffrwythau rhag y casglwyr.

Gyda phlanhigion sydd wedi'u gwarchod mewn tai gwydr neu dwneli sy'n cael eu hawyru'n dda, mae'n bosibl na fydd angen gwasgaru ffwngleiddiaid i reoli rhwd mafon neu botrytis ac ni fydd ond angen defnyddio chwistrellau yn erbyn llwydni powdrog os gwyddys bod y math o blanhigyn yn agored iawn i'r clefyd hwn e.e. Glen Ample.

### **Sefydlu a Gofalu am Blanhigfeydd**

Mae'n hanfodol trin y planhigion â gofal mawr pan gyrhaeddant y fferm, rhwch nhw dan orchudd yn y cysgod mewn lle oer ond nid mewn storfa oer am nifer o ddyddiau (dros wythnos o bosibl ar gyfer systemau plannu cynnar) i roi amser i'r compost ddatmwr. Rhwch nhw i lawr yn y cae pan fo'r tywydd yn oer, os yn bosibl pan mae'n llonydd neu pan nad oes ond gwynt ysgafn cynnes yn chwythu ac nid gwynt oer na phoeth. Os ydych yn plannu ddiwedd y gwanwyn i'r haf, mae'n bosibl y bydd angen chwistrellu dŵr yn ysgafn dros y rhesi planhigion bob ychydig oriau am ychydig ddyddiau i leddfu straen gwres a rhag i'r cansenni a'r blagur datblygol golli gormod o leithder. Wrth osod y planhigion allan neu eu potio, cofiwch drin y planhigion â gofal rhag ichi rwygo neu niweidio blagur y ffrwyth a pheidiwch â mynd â gormod o blanhigion allan i'r cae ar unwaith fel nad oes dim yn cael eu gadael yn agored i'r gwynt a'r haul rhag iddynt sychu.

Cofiwch rwymo'r cansenni newydd yn ofalus rhag i'r gwreiddiau gael eu niweidio. Sicrhewch fod planhigion newydd wedi toddi drwyddynt er mwyn osgoi unrhyw straen dŵr pan maent newydd eu plannu. Os caiff planhigion cansenni hir a dyfir mewn potiau eu tyfu dan warchodaeth, boed nhw'n rhaid un cnwd neu ddau, mae'n debygol y bydd angen gosod offer i gynnal y canghennau ochrol sy'n dwyn ffrwyth rhag iddynt blygu dan bwysau'r ffrwythau, neu ystumio/torri neu wneud y ffrwythau'n anodd eu gweld a'u casglu. Bydd hyn yn arbennig o wir am Glen Ample a Tulameen, er na fydd angen gwneud hyn â rhai cyltifarau ochrol cryf byr eraill e.e. Squamish.

Os penderfynwch fynd am ddull cynhyrchu cnydau cansenni hir mewn swbstrad, mae'n holl bwysig cynllunio ymlaen a chysylltu'n aml â'r lluosogwr planhigion rydych chi'n ei ddefnyddio fel eu bod yn cynhyrchu'r planhigion o ansawdd yr ydych chi eisiau. Bydd angen ichi sicrhau bod ganddo ddigon o lefydd storio oer rhwng tynnu'r planhigion o'r storfeydd oer a chael eu danfon i'r safle plannu a bod cyflenwad digonol, glân a dibynadwy o ddŵr ar gael i'r planhigion cyn gynted ag y cânt eu gosod yn eu lleoliad casglu hyd at ddiwedd y cyfnod cynaeafu. Mae'r gallu i hylif-fwydo'r cnwd hefyd yn hanfodol yn enwedig os bydd y planhigion yn eu lle am ddwy neu hyd yn oed dair blynedd. Sicrhewch fod dargludedd y compost a'r bwyd i mewn ac allan yn cael ei archwilio'n rheolaidd rhag gwneud difrod i wreiddiau'r cnwd neu'r deiliach.

### **Monitro a Rheoli Plâu**

Mae'n bosibl mai'r unig blâu y bydd gofyn eu rheoli â bio-blaladdwyr neu blaladdwyr confensiynol yw gwiddon coch, pryfed gleision a chwilod mafon gyda mafon sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf. Dylid defnyddio dulliau rheoli ar ôl archwilio'r deiliach, y blodau a'r ffrwythau. Yn achos chwilod mafon, argymhellir eich bod yn gosod trapiau twmffat i fonitro poblogaeth y pla hwn.



Gellir defnyddio *Phytoseiulus persimilis* fel dull biolegol effeithiol o reoli'r gwiddon coch ar 10/m<sup>2</sup> i ddechrau a dylent fod yn hunan-gynhaliol ar ôl iddynt sefydlu. Dylid archwilio planhigion sydd wedi sefydlu (sy'n cael eu cynnal i ail neu drydydd tymor casglu) am arwyddion o ddifrod gwiddon gwinwydd, megis y cansenni blodeuo yn methu â blaguro, neu blanhigion y gellir eu tynnu o'r compost yn hawdd.

### **Gwiddon Cansenni Mafon**

Bydd angen gadael o leiaf rhywfaint o'r cansenni cyntaf os caiff y planhigion eu cario drwedd o'r flwyddyn gasglu gyntaf i'r ail neu o'r ail i'r drydedd. Mae'r gansen hon yn y rhan fwyaf o achosion yn agored o bosibl i ddifrod gan widdon cansenni mafon a gwiddon dail mwyar duon. Bydd angen i drapiau Pheromone ar gyfer y plâu hyn gael eu gosod yn y blanhigfa 1-1.6m uwchlaw'r ddaear o ddechrau mis Ebrill ymlaen i ganfod pryd mae'r genhedlaeth gyntaf o widdon yn codi o'r pridd, a oes angen chwistrellu i'w rheoli, ac os felly pryd, ac i fonitro gweithgaredd y plâu hyn ar ôl hynny wrth i genedlaethau olynol ddod i'r amlwg yn ystod misoedd yr haf a dechrau'r hydref.

Drwy ddefnyddio trapiau gallwch weld pryd mae gwiddon cansenni mafon yn dechrau codi o'r pridd, ac a oes digon ohonynt i gyfiawnhau defnyddio pryfladdwr; ar hyn o bryd bernir bod 30 o widdon gwryw llawn dwf wedi'u dal mewn trap/wythnos yn drothwy ar gyfer chwistrellu, fodd bynnag, mewn gwirioneddol mae'n bosibl y bydd angen i'r trothwy fod yn is os yw plisg y cansenni cyntaf yn berygl o hollti neu wedi hollti (gan gynnig lle i ddodwy wyau) er mwyn sicrhau bod mesurau rheoli yn cael eu defnyddio ar yr adeg iawn ac i osgoi difrod difrifol i'r cansenni. Gallwch brynu trapiau o Agralan Ltd, Russell IPDM a llawer o ddsbarthwyr agrocemegol e.e. Hutchinsons. Os caiff planhigion cansenni hir eu plannu'n gynnar (Mawrth neu Ebrill) os gwyddys bod y math hwn o fafon yn ddarparwr cansenni cyntaf egniol a thoreithiog (e.e. Glen Ample) fe allai fod yn bosibl tynnu o leiaf yr hyrddiad cyntaf o dwf y cansenni cyntaf gan ddefnyddio Shark gan adael rhan o'r ail hyrddiad i dyfu i'w cynnal i'w cynaeafu yr haf dilynol. Gallai tynnu'r tyfiant cyntaf fel hyn hefyd olygu nad oes gan y gwiddon cansenni mafon sydd newydd ddod i'r amlwg le i ddodwy wyau, felly nid oes angen chwistrellu bryd hynny i'w rheoli.

### **Phytophthora**

Mae'r rhan fwyaf o dyfwyr mafon yn agored i *Phytophthora rubi*. Ni all llawer o dyfwyr, heblaw ar gyfer y planhigion cynharaf, ddefnyddio Paraat neu SL567A i reoli pydredd gwreiddiau mewn planhigfeydd cansenni hir dan do neu'r tu allan gan nad oes digon o amser rhwng gosod y planhigion yn eu lleoliad cynaeafu (a dechrau twf y planhigion) a dechrau eu cynaeafu. Mae metalaxyl-M h.y. SL567A (EAMU 2195/07) a dimethomorph (Paraat) angen bwch o dri mis cyn cynaeafu, felly bydd rhaid eu defnyddio'n fuan.

### Asesu Clefydau Cansenni Blodeuo

Mae hwn yn amser delfrydol o'r flwyddyn i asesu cansenni blodeuo planhigfeydd mafon sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf a'r hydref a gynhelir ymlaen (yn dwyn ffrwyth ddiwedd y gwanwyn/dechrau'r haf) am bresenoldeb clefydau ffyngaidd sydd wedi byw dros y gaeaf h.y. *Botrytis*, clwy sbardunau a smotiau cansenni.

#### **Botrytis**

Briwiau arian/gwyn hir o amgylch y blagur ac yn ymestyn rhwng y blaguron. Yn aml, mae cyrff ffrwytho du (siâp crwn neu hirgrwn) i'w gweld ar y briwiau hyn ynghyd â phatrymau cylchoedd consentrig.



#### **Clwy sbardunau**

Briwiau llwyd golau o amgylch blagur unigol. Caiff y lliw llwyd ei orchuddio â chyrff sborau mân â smotiau du.

#### **Smotiau cansenni**

Smotiau suddedig, ag ymylon llwyd yn rhisgl y gansen. Os oes nifer fawr o smotiau, gallant fod wedi uno a gellid bod arwyddion hollti.



### COVID-19

Mae'r sefyllfa bresennol yn effeithio ar y sector mewn amrywiol ffyrdd, ac er bod siopau ffermydd yn gweld cynnydd yn eu busnes, ychydig o fynediad i gwsmeriaid sydd gan dyfwyr 'casglu eich hunain'. Gellir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hysbysebu dethol (yn enwedig os yw tyfwyr casglu eich hunain yn gwerthu bocsys bach) a gall hefyd fod yn ddefnyddiol i reoli torfeydd pan ddychwelwn i normal. Efallai y byddai tyfwyr casglu eich hunain yn dymuno oedi eu cnydau (naill ai drwy blannu'n hwyrach neu arafu'r cnwd drwy adael twneli heb orchudd). Efallai y byddech hefyd yn dymuno sicrhau bod gennych ddigon o gyflenwadau gan archebu ymlaen llaw, yn enwedig gynhyrchion cemegol a biolegol, i sicrhau eich bod yn gallu cadw rheolaeth dros y tymor.

### Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylai'r holl gemegolion amddiffyn cnydau gael eu defnyddio'n unol â'r argymhellion ar y label, a dylid cyfeirio at yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau pwmpenni ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU dan y Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002). Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr ar risg y defnyddiwr ei hun ac nid yw Tyfu Cymru'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr mewn cnydau mafon yn gywir adeg ysgrifennu. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio'r cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio

cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor drwy e-bost/dros y ffôn hefyd ar gael.